Cyllid & Tollau EM

Rhagfyr 2021

Rhif Cofrestru TAW

Annwyl gwsmer

Rydym yn ysgrifennu atoch nawr oherwydd bod ein cofnodion yn dangos eich bod wedi mewnforio neu allforio nwyddau o Brydain Fawr yn y gorffennol. Mae newidiadau ar droed i drefniadau tollau o 1 Ionawr 2022 ymlaen, felly mae'r llythyr hwn yn egluro beth sy'n newid, a sut i wneud yn siŵr eich bod yn barod, cyn i chi symud eich nwyddau.

## Mae'r newidiadau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2022 ar gyfer mewnforion o'r UE (ac eithrio Iwerddon) i Brydain Fawr yn cynnwys y canlynol:

- mae angen datganiadau tollau llawn ar gyfer mewnforion, a hynny ar gyfer yr holl nwyddau wrth i chi neu'ch cludwr/anfonwr nwyddau ddod â nhw i mewn i Brydain Fawr
- rheolaethau tollau ym mhob porthladd a phob lleoliad arall wrth y ffin
- efallai y bydd angen datganiad gan gyflenwyr arnoch, sy'n dangos tarddiad eich nwyddau (naill ai'r DU neu'r UE) os ydych yn defnyddio'r tariffau sero a gytunwyd yng nghytundeb masnach y DU â'r UE
- codau nwyddau newydd – defnyddir y rhain i ddosbarthu'ch nwyddau at ddiben datganiadau tollau.

Rydym yn amgáu gwybodaeth bellach sy'n esbonio'r newidiadau hyn, yr hyn y maent yn ei olygu i chi os byddwch yn mewnforio neu'n allforio nwyddau o 1 Ionawr 2022 ymlaen, a'r hyn y mae angen i chi ei wneud er mwyn paratoi. Os nad ydych yn barod ar gyfer y newidiadau, efallai y bydd oedi wrth glirio'ch nwyddau, gan arwain at gostau ychwanegol.

## Trefniadau dros dro ar gyfer symudiadau o Iwerddon a Gogledd Iwerddon

Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd y trefniadau tollau presennol ar gyfer symud nwyddau o Iwerddon a Gogledd Iwerddon i Brydain Fawr yn cael eu hymestyn cyhyd â bod trafodaethau rhwng y DU a'r UE ar weithrediad Protocol Gogledd Iwerddon (NIP) yn parhau.

Mae hyn yn golygu y bydd rheolaethau tollau llawn yn cael eu cyflwyno yn unol â'r bwriad ar 1 Ionawr 2022 ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng gweddill yr UE a Phrydain Fawr, ac ar gyfer nwyddau a gaiff eu hallforio o Brydain Fawr i Iwerddon.

Os ydych yn symud nwyddau i mewn i, neu allan o Ogledd Iwerddon, gall y Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr, sy'n rhad ac am ddim, eich tywys drwy'r broses. Ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'Trader Support Service' i gofrestru.

## Rhagor o wybodaeth

Rydym yn deall pa mor heriol yw addasu i'r newidiadau hyn, ac rydym yn gwerthfawrogi faint rydych wedi'i wneud eisoes. Rydym yma i'ch cefnogi ac i'ch helpu i baratoi.

Gallwch wylio fideos, cofrestru ar gyfer e-byst hysbysu, a chofrestru ar gyfer gweminarau rhad ac am ddim er mwyn dysgu rhagor am Gyfnod Pontio'r DU – ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'help and support for UK transition'.

## Os oes gennych gwestiwn ynghylch mewnforio, allforio neu ryddhad rhag tollau

Gallwch ffonio ein llinell gymorth ar **0300 322 9434**. Mae'r llinell ar agor o 8am i 10pm (yn ystod yr wythnos) ac o 8am i 4pm (ar y penwythnos). Gallwch hefyd siarad ag ymgynghorydd ar-lein – ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'imports and exports general enquiries'.

Yn gywir

**Katherine Green a Sophie Dean**

Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Ffiniau a Masnachu, CThEM

## Gwybodaeth am newidiadau o 1 Ionawr 2022 ymlaen

Mae nifer o bethau'n newid o 1 Ionawr 2022 ymlaen. Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i baratoi.

### Datganiadau Tollau

Os ydych yn mewnforio nwyddau nad ydynt o dan reolaeth ac sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o borthladdoedd Iwerddon, nid oes unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. Gallwch barhau, felly, i oedi cyn gwneud eich datganiadau tollau am hyd at 175 diwrnod, cyn belled â'ch bod yn gwneud cofnod yng nghofnodion y datganydd adeg y mewnforio.

Os yw'ch nwyddau'n dod i mewn i Brydain Fawr o wledydd eraill yn yr UE, ni fyddwch yn gallu gohirio gwneud datganiadau tollau ar gyfer mewnforion o dan reolau'r Rheolaethau Tollau fesul Cam sydd wedi bod ar waith yn ystod 2021. Bydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o gwsmeriaid wneud datganiadau a thalu'r tariffau perthnasol adeg y mewnforio.

Cyn 1 Ionawr 2022, dylech ystyried sut y byddwch yn cyflwyno'ch datganiadau tollau. Gallwch benodi cyfryngwr, megis asiant tollau, i ddelio â'ch datganiadau ar eich rhan, neu gallwch eu cyflwyno eich hun. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn gov.uk/hmrc/customs-on-your-behalf

Mae gan rai busnesau awdurdodiad 'Datganiadau Symlach' oddi wrth CThEM eisoes. Mae hyn yn caniatáu i'w nwyddau gael eu rhyddhau'n uniongyrchol i weithdrefn tollau benodol, heb orfod darparu datganiad tollau llawn adeg eu rhyddhau.

**Os hoffech ddefnyddio Datganiadau Symlach**, bydd angen awdurdodiad arnoch i wneud hynny. Gall gymryd hyd at 60 diwrnod calendr i gwblhau'r gwiriadau sydd eu hangen ar gyfer hyn, ac felly efallai na fydd cais newydd a wneir nawr yn cael ei awdurdodi cyn 1 Ionawr 2022. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'simplified declarations'.

Mae'n rhaid i chi ddefnyddio'r cod gwlad cywir ar gyfer y wlad tarddiad a'r wlad anfon wrth i chi gwblhau'ch datganiad tollau. Ar gyfer gwledydd yn yr UE, dylid defnyddio cod gwlad unigol yr aelod-wladwriaeth berthnasol. Peidiwch â defnyddio cod gwlad yr UE – caiff hwn ei ddileu oddi ar systemau cyn bo hir.

### Rheolaethau wrth y ffin

Bydd porthladdoedd a lleoliadau eraill wrth y ffin yn dechrau rheoli nwyddau. Mae hyn yn golygu, oni bai bod gan eich nwyddau ddatganiad dilys a'u bod wedi'u clirio drwy'r tollau, na fyddant yn gallu cael eu rhyddhau i gylchrediad ac na fyddant, yn y rhan fwyaf o'r achosion, yn gallu gadael y porthladd, ac eithrio o borthladdoedd yn Iwerddon.

Efallai y caiff eich nwyddau eu cyfeirio at Gyfleuster Mewndirol wrth y Ffin (IBF) ar gyfer gwiriadau dogfennol neu ffisegol os na ellir gwneud y gwiriadau hyn wrth y ffin.

Mae'n bwysig bod y sawl sydd ynghlwm wrth gludo'ch nwyddau'n barod ac yn deall sut yr ydych yn bwriadu gweithredu o fis Ionawr 2022 ymlaen.

Bydd nwyddau sy'n cael eu hallforio drwy'r holl leoliadau wrth y ffin yn destun rheolaethau tollau llawn. Yn dibynnu ar ba borthladd y mae'ch nwyddau'n symud drwyddo, bydd angen i chi neu'ch asiant gyflwyno naill ai datganiad allforio ymlaen llaw neu ddatganiad allforio sydd 'wedi cyrraedd'. I gael gwybod rhagor am ba broses y mae angen i chi ei dilyn, ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'making a full export declaration'. Mae rhestr o leoliadau lle y mae angen i chi ddefnyddio datganiadau ymlaen llaw o 1 Ionawr 2022 ymlaen hefyd ar gael yn **GOV.UK**, a hynny drwy chwilio am 'pre-lodged declaration locations'.

Os na fyddwch yn dilyn y broses gywir o 1 Ionawr 2022 ymlaen, ni fydd y systemau newydd yn caniatáu i'ch nwyddau adael y wlad a byddant yn cael eu hanfon ymaith gan na fyddant yn meddu ar gliriad allforion.

**Os ydych yn defnyddio gwasanaeth megis cludwr neu anfonwr nwyddau** i symud eich nwyddau, mae'n rhaid i chi wirio ei delerau ac amodau mewn perthynas â phwy fydd yn gwneud y datganiadau a pha wybodaeth arall sydd ei hangen gennych er mwyn iddo wneud hyn.

### Rheolau o ran tarddiad – ar gyfer mewnforion ac allforion

Mae'r Cytundeb Masnachu a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE yn golygu y gallai'r nwyddau rydych yn eu mewnforio neu'n eu hallforio fanteisio ar gyfradd is o Doll Dramor (ffafriaeth tariff). Er mwyn defnyddio hyn, mae arnoch angen tystiolaeth bod y nwyddau:

- rydych yn eu mewnforio o'r UE yn tarddu o'r UE
- rydych yn eu hallforio i'r UE yn tarddu o'r DU.

Wrth ddweud 'tarddu', rydym yn cyfeirio at y wlad lle y cynhyrchwyd neu y gweithgynhyrchwyd y nwyddau (neu'r deunyddiau, y rhannau neu'r cynhwysion a ddefnyddiwyd i'w creu). Nid yw'r tarddiad yn ymwneud â'r lle y cafodd y nwyddau eu cludo neu eu prynu ohono. Bydd angen i'ch nwyddau fodloni gofynion y rheolau o ran tarddiad sy'n benodol i'r cynnyrch, fel yr amlinellir yn y Cytundeb Masnachu a Chydweithredu.

Gall mewnforwyr o'r DU a'r UE hawlio ffafriaeth tariff os oes ganddynt un o'r tystiolaethau o darddiad canlynol:

- datganiad tarddiad – mae'n rhaid i hwn gael ei wneud gan yr allforiwr i gadarnhau bod y cynnyrch yn tarddu o'r DU neu'r UE
- gwybodaeth y mewnforiwr – mae'r opsiwn hwn yn galluogi'r mewnforiwr i hawlio ffafriaeth tariff ar sail ei wybodaeth ei hun o darddiad y nwyddau y mae'n eu mewnforio.

Os ydych yn allforio nwyddau i'r UE a'ch bod yn rhoi datganiad tarddiad i'r mewnforiwr yn yr UE, efallai y bydd angen i chi fod â datganiad cyflenwr ar waith hefyd. Mae angen y rhain er mwyn cadarnhau tarddiad y nwyddau rydych yn eu hallforio pan nad yw'r gweithgynhyrchu'n ddigon ynddo'i hun i fodloni'r rheolau o ran tarddiad sy'n benodol i'r cynnyrch.

Drwy gydol 2021, caniatawyd i chi allforio nwyddau i'r UE gan ddefnyddio ffafriaeth tariff a chael datganiadau cyflenwr ar ôl hynny, er mwyn rhoi mwy o amser i chi. Ond, o 1 Ionawr 2022 ymlaen, bydd yn rhaid i chi fod â datganiadau cyflenwr (pan fo eu hangen) adeg allforio'ch nwyddau.

Os na allwch ddarparu datganiad cyflenwr i gadarnhau bod y nwyddau a allforiwyd gennych i'r UE rhwng 1 Ionawr a 31 Rhagfyr 2021 wedi tarddu o'r DU, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'ch cwsmer.

Os ydych yn destun cais am ddilysiad gan awdurdodau tollau'r UE, ac na allwch ddarparu'r dystiolaeth ategol hon, bydd eich cwsmer yn yr UE yn agored i dalu'r gyfradd lawn (anffafriol) o Doll Dramor, ac efallai y byddwn yn codi cosb arnoch chi hefyd.

I ddysgu rhagor am y rheolau o ran tarddiad ac i gael gwybod pryd mae angen datganiadau cyflenwr, ewch i **GOV.UK** a chwilio am 'suppliers' declaration'.

Hyd yn oed os yw nwyddau rydych yn eu mewnforio o'r UE yn gymwys ar gyfer ffafriaeth tariff, bydd rheolau TAW arferol yn dal i fod yn berthnasol.

## Cyfrifyddu TAW Ohiriedig (PVA)

Os ydych yn fewnforiwr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, gallwch barhau i ddefnyddio Cyfrifyddu TAW Ohiriedig (PVA) ar bob datganiad tollau sy'n gofyn i chi roi cyfrif am TAW mewnforio, gan gynnwys datganiadau atodol, oni bai bod CThEM wedi dweud wrthych fel arall. Mae PVA eisoes wedi darparu manteision sylweddol o ran llif arian ar gyfer miloedd o'n cwsmeriaid, ac rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o fusnesau'n dewis ei ddefnyddio. Gallwch chwilio am 'postponed VAT accounting' yn **GOV.UK** i ddysgu rhagor.

## Codau nwyddau

Defnyddir codau nwyddau ledled y byd i ddynodi nwyddau sy'n cael eu mewnforio a'u hallforio.
Maent wedi'u safoni hyd at 6 digid ac fe'u hadolygir bob pum mlynedd gan Sefydliad Tollau'r Byd. Yn dilyn diwedd yr adolygiad diweddaraf, bydd codau'r DU yn newid ar 1 Ionawr 2022. Dylech fynd i **GOV.UK** a chwilio am y 'Trade Tariff Tool' wrth i chi fewnforio'ch nwyddau er mwyn dod o hyd i'r codau nwyddau cywir.

Gallwch hefyd edrych ar dudalen newyddion y Tariff Masnach yn www.trade-tariff.service.gov.uk/news

## Newidiadau pellach o 1 Gorffennaf 2022 ymlaen

Caiff newidiadau pellach eu cyflwyno o fis Gorffennaf 2022 ymlaen, a byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y rhain yn nes at yr amser. Bydd y rhain yn cynnwys:

- gofynion am ddatganiadau diogelwch llawn ar gyfer yr holl fewnforion
- gofynion newydd am Dystysgrifau Iechyd Allforio
- gofynion am Dystysgrifau Ffytoiechydol
- archwiliadau ffisegol o nwyddau iechydol a ffytoiechydol mewn Mannau Rheoli wrth y Ffin.